

Felinheli

Newyddion gan dîm Plaid
Cymru yn y Felin 2011

Ar y Blaen!



Plaid Cymru'n Cydweithio

Cynghorydd Sir ac Aelod
y Cynulliad yn cydweithio
i ddatblygu'r pentref

Mae dros £2 filiwn yn cael ei
fuddsoddi i wella'r pentref yn
sgil gwaith caled Y Cynghorydd
Siân Gwenllian a etholwyd i Gyngor
Gwynedd dair blynedd yn ôl.



Aelod Cynulliad Arfon, **Alun Ffred Jones** a'r
Cynghorydd Sir, **Siân Gwenllian**, Y Felinheli yn y
Neuadd Goffa ar ei newydd wedd

- Mae'r Cynghorydd Siân Gwenllian wedi helpu datblygwyr i ganfod safle addas ar gyfer datblygu Meddygfa a Chanolfan Iechyd newydd sbon yn Rowen. Bydd y Ganolfan gwerth £1.75 miliwn yn cyflogi 40 o bobl ac yn sicrhau adeilad modern safonol gydag adnoddau parcio.
- Mae'r gwaith o ddiweddarau'r Neuadd Goffa bellach wedi ei gwblhau gan gynnig lleoliad gwerth chweil ar gyfer digwyddiadau chwaraeon, cymunedol, ieuentid ac elusennol. Bu'r gwaith yn bosib oherwydd llwyddiant Y Cynghorydd Siân Gwenllian i ddenu cyllid dros £250,000 gan Lywodraeth y Cynulliad a chefnogaeth lawn y Cyngor Cymuned.
- Mae'r gwaith o wella llwybrau cerdded a beicio yng nghanol y pentref yn mynd yn ei flaen diolch i gefnogaeth ariannol Llywodraeth y Cynulliad. Cydweithiodd Y Cynghorydd Gwenllian gyda Chyngor Gwynedd ar y cynllun sy'n werth bron i £250,000.

"**Fy nod** yw gwella bywydau pobl y pentref, a theimlaf fy mod wedi llwyddo i wneud hyn yn ystod fy nghyfnod cyntaf yng Nghyngor Gwynedd. Mae gallu gweithio ag Aelod Cynulliad Plaid Cymru, Alun Ffred Jones, yn rhoi'r modd i mi yrru prosiectau mawr pwysig yn eu blaen, prosiectau i wella iechyd a lles y trigolion lleol," meddai'r Cynghorydd **Siân Gwenllian**.

Yn ôl **Alun Ffred Jones**, Gweinidog Treftadaeth Y Cynulliad, sy'n ail sefyll yn Etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai: "Mae hi wedi bod yn wych ymweld â'r Felin i weld y prosiectau yma'n mynd rhagddynt, ac rwy'n gobeithio y gallwn gydweithio eto yn y dyfodol."



**Cofiwch bleidleisio dros
fwy o bwerau i'r
Cynulliad fis Mawrth**

Felinheli'n Dweud: Ie Dros
Gymru, Neuadd Goffa
26 Chwefror, 7.30yh

siangwenllian@yahoo.com
07775642202
www.felinheli.org